# Profiad Ffoaduriaid i Roi Diwedd ar Ddigartrefedd drwy Newid Deddfwriaethol

## Cyflwyniad a Chefndir

Ers 2019, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio tuag at wneud digartrefedd yn "brin, yn fyr, ac heb ei ailadrodd".[i]

Ar ddiwedd 2023, cyflwynodd y Llywodraeth ei *Phapur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd drwy Newid Deddfwriaethol* (y *Papur Gwyn*). Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno cynigion ar gyfer newidiadau i bolisïau a'r gyfraith er mwyn rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Mae'r rhain yn amrywio o ddileu angen blaenoriaethol a newidiadau i gysylltiadau lleol, i ailddiffinio addasrwydd llety dros dro.

Cafodd y *Papur Gwyn* ei lunio yng ngoleuni llawer o'r argymhellion gan y Panel Adolygu Arbenigol annibynnol (y Panel) a gynullwyd gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, Julie James AS. Bwydodd Cyngor Ffoaduriaid Cymru (WRC) i'r Panel drwy roi tystiolaeth ar yr heriau tai sy'n wynebu ceiswyr lloches[ii] yng Nghymru.

Cymerodd Llywodraeth Cymru brofiad byw i gryn ystyriaeth wrth ddatblygu'r *Papur Gwyn*. Er mwyn sicrhau bod lleisiau a phrofiadau pobl â nodweddion gwarchodedig yn cael eu cynrychioli, fe gomisiynwyd *Profiadau pobl â nodweddion gwarchodedig o ddigartrefedd yng Nghymru* Tai Pawb ym mis Mawrth 2023. Roedd yr ymchwil hon yn cyfeirio at brofiadau byw naw ceisiwr lloches ac wyth ffoadur, gan nodi'r gwahaniaethau rhwng y ddau grŵp.

Mae cynigion y *Papur Gwyn* wedi'u rhannu'n bum pennod thematig:

- Pennod 1: Diwygio'r ddeddfwriaeth graidd bresennol mewn perthynas â digartrefedd
- Pennod 2: Rôl gwasanaeth cyhoeddus Cymru o ran atal digartrefedd
- Pennod 3: Cynigion wedi'u targedu i atal digartrefedd i'r rhai yr effeithir arnynt yn anghymesur
- Pennod 4: Mynediad at lety
- Pennod 5: Gweithredu

Fe wnaethom ni, fel Cyngor Ffoaduriaid Cymru (WRC), gyflwyno ymateb fel rhan o ymgynghoriad agored y *Papur Gwyn*. Cawsom ein comisiynu hefyd gan Lywodraeth Cymru i gynnal sesiwn ymgysylltu â cheiswyr lloches er mwyn cofnodi eu profiadau i'w hymgorffori yn yr ymgynghoriad.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos y profiadau a rannwyd yn nigwyddiad ymgysylltu'r *Papur Gwyn* yn ogystal â'n hymateb i'r ymgynghoriad. Mae'r holl ddyfyniadau yn yr adroddiad hwn yng ngeiriau ffoaduriaid a gymerodd ran yn ein digwyddiad ymgysylltu.


## Fformat

Gwahoddwyd dros ugain o ffoaduriaid â phrofiad o ddigartrefedd neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, a oedd wedi ymweld â'n swyddfeydd yng Nghaerdydd a Chasnewydd yn ystod y misoedd blaenorol, i gymryd rhan yn y sesiwn ymgysylltu hon. Dewisom gynnwys dim ond ffoaduriaid yn yr astudiaeth, gan fod cynigion y *Papur Gwyn* wedi'u targedu'n bennaf at bobl sydd â'r hawl gyfreithiol i gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus. Roedd y dewis yn seiliedig ar eu profiadau o ddigartrefedd a'u dealltwriaeth o'r Saesneg.




Poster y digwyddiad ymgysylltu a ddefnyddiwyd ar gyfer recriwtio


Daeth cyfanswm o bymtheg ffoadur i'r sesiwn. Roedd y grŵp yn amrywiol o ran rhyw a chenedligrwydd ac yn cynnwys pobl anabl a LHDTCRh+. Roedd yna hefyd brofiadau gwahanol o ddigartrefedd, gyda rhai wedi profi digartrefedd ar y stryd hyd yn oed.



Dosbarthiad yn ôl rhyw
Gwryw
40%
Benyw
60%
Male
Female

Cenedligrwydd
Sudan
Saudi Arabia
Nigeria
Nepal
Morocco
Kuwait
Kenya
Iraq
Iran
China
Afghanistan
0
1
2
3
4
Nationality




Roedd cyfieithu a chyfieithu ar y pryd gan gyfoedion ar gael. Hefyd, roedd ein staff yn cynnig cyfieithu a chyfieithu ar y pryd ychwanegol yn ôl yr angen.

Dyma agenda'r ddwyawr o drafodaeth:

- 10:00 – Croeso
- 10:05 – Beth fyddwn ni'n ei drafod heddiw
- 10:10 - Pam a beth yw'r *Papur Gwyn*
- 10:15 - Atal, Cynlluniau Tai Personol (PHPs), a Chyfathrebu (Pennod 1)
- 10:35 – Angen blaenoriaethol a chysylltiad lleol (Pennod 1)
- 10:55 – Gwasanaethau yn cydweithio (Pennod 2)
- 11:00 – Egwyl 5 munud
- 11:05 – Grwpiau bregus (Pennod 3)
- 11:20 – Y cartref cywir (Pennod 4)
- 11:50 – Cwestiynau wrth orffen
- 12:00 – Diwedd y sesiwn

Oherwydd cyfyngiadau amser a pherthnasedd, nid oedd angen ymdrin â holl gynigion y *Papur Gwyn*. Yn hytrach, cyflwynwyd ychydig o gynigion a chwestiynau penodol o'r ymgynghoriad i'w trafod.

Arweiniwyd y sesiwn gan Arweinydd Polisi Tai ac Ymchwil (HP&RL) y WRC. Cefnogwyd yr HP&RL gan Reolwr Gwasanaethau Noddfa a Phartneriaethau WRC, a gymerodd nodiadau o'r cyfarfod er mwyn adrodd ar y canfyddiadau.

## Pennod 1 – Diwygio'r ddeddfwriaeth graidd bresennol mewn perthynas â digartrefedd

Amlinellodd Pennod 1 sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau bod y gyfraith yn helpu i atal digartrefedd rhag digwydd i gynifer o bobl â phosibl.

**Cynnig – Cael cymorth ynghynt**

| |
|---|
| Mae person dan fygythiad o ddigartrefedd os yw'n debygol y bydd y person yn dod yn ddigartref o fewn chwe mis neu os bydd wedi cael Hysbysiad Ceisio Meddiant |

Cytunodd y cyfranogwyr i raddau helaeth nad yw 56 diwrnod (wyth wythnos) yn ddigon o amser i gefnogi pobl i gynnal eu hen lety na dod o hyd i un newydd. O'r herwydd, fe wnaethant gefnogi'r estyniad i chwe mis.

Serch hynny, fe wnaethant fynegi pryder nad yw ffoaduriaid yn cael 56 diwrnod hyd yn oed oherwydd eu statws mewnfudo. Unwaith y bydd ceisiwr lloches yn cael Caniatâd i Aros, mewn theori, dim ond 28 diwrnod sydd ganddynt i adael y llety a ddarparwyd gan y Swyddfa Gartref. Gelwir y cyfnod hwn yn symud ymlaen. Y realiti, fel y nodwyd gan gyfranogwyr, oedd bod y cyfnod yn aml yn fyrrach na 28 diwrnod hyd yn oed. Mae'r amserlen afresymol yn condemnio llawer o ffoaduriaid i ddigartrefedd.

"Dyw wyth wythnos ddim yn ddigon hir ac, yn ymarferol, dim ond wythnos sy'n cael ei roi [i adael llety'r Swyddfa Gartref]. Pan gefais fy statws, y cyngor a gefais oedd i gysylltu â'r [awdurdod lleol] a chyflwyno fy hun yn y lloches i'r digartref. Ni chymerwyd unrhyw gamau i'm cefnogi mewn wythnos."

"Mae llawer o gartrefi gwag gan y Swyddfa Gartref. Cefais fy symud er gwaethaf cyflwr meddygol wedi'i gofnodi. Nid yw pobl a ddylai fod yn ein cefnogi yn deall realiti byw ein sefyllfa ac mae'n ymddangos fel pe nad ydyn nhw'n poeni. Maen nhw'n tybio y bydd pawb yn achosi trafferth. Mae lletya mewn gwesty yn ddrud. Nid wyf am gael y ddyled honno wrth fy enw. Mae rhwystrau iaith yn gwneud pobl yn fregus. Mae gorfodi pobl i fod yn ddigartref yn eu gwthio tuag at weithredoedd troseddol ac mae hyn yn achosi problem i bawb."

**Cynnig – Cymorth cynllunio a chyfathrebu**

At ddibenion y drafodaeth, trafodwyd y cynigion ynghylch cymorth cynllunio, a oedd yn manylu ar y defnydd o Gynlluniau Tai Personol (PHPs), a gwell cyfathrebu ar yr un pryd.

| |
|---|
| Mae'n ddyletswydd statudol i lunio Cynllun Tai Personol (PHP) sy'n cynnwys y camau y bydd yr awdurdod tai lleol yn eu cymryd i sicrhau llety ar gyfer yr ymgeisydd. |
| Rydym yn cynnig dyletswydd statudol i adolygu'r asesiad o anghenion a'r Cynllun Tai Personol gyda'r ymgeisydd o fewn amserlen benodedig o 8 wythnos. |
| Rydym yn cynnig dyletswydd statudol i gynnwys safbwyntiau ymgeisydd ar ei anghenion o ran llety mewn Cynllun Tai Personol. |

| |
|---|
| • Hawl i wneud cais am adolygiad mewn perthynas â'r camau rhesymol a gymerwyd i atal digartrefedd neu sicrhau llety a amlinellwyd yn asesiad ymgeisydd o'i anghenion o ran tai ac yn ei Gynllun Tai Personol.<br>• Hawl i wneud cais am adolygiad o addasrwydd llety unrhyw bryd tra bydd yn meddiannu'r llety (a ddylai fod ar gael y tu hwnt i 21 diwrnod). |
| Rydym yn cynnig y dylid ei gwneud yn glir ei bod yn rhaid i awdurdodau tai lleol sicrhau (yn seiliedig ar asesiad trylwyr o angen a Chynllun Tai Personol) eu bod yn cyfathrebu ag ymgeiswyr mewn ffordd hygyrch, wedi'i theilwra yn unol ag unrhyw anghenion unigol. |
| Rydym hefyd yn cynnig ei gwneud yn ofynnol mewn deddfwriaeth i awdurdodau tai lleol gyfathrebu'n rheolaidd ag ymgeiswyr ynghylch:<br>i. Hynt eu cais am lety tymor hwy a'r amserlenni disgwyliedig.<br>ii. Eu hawliau i wneud cais am adolygiadau o addasrwydd llety ac unrhyw benderfyniadau perthnasol eraill.<br>iii. Cymorth a allai fod ar gael i'r ymgeisydd.<br>Rydym yn cynnig y dylai rhagor o fanylion ynghylch cyfathrebu gael eu hamlinellu mewn canllawiau. |

Ar y cyfan, roedd cyfranogwyr yn optimistaidd am y defnydd symlach o Gynlluniau Tai Personol, ac yn argymell yn gryf bod gwell cyfathrebu â thimau tai awdurdodau lleol yn digwydd, gan fod nifer wedi cael profiadau negyddol iawn. Roedd cytundeb cyffredinol yn yr ystafell fod iaith yn aml yn rhwystr, ac y dylai timau tai a digartrefedd awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd.

Mae'n rhaid i gynigion sy'n anelu at gyfathrebu cliriach ystyried cyfieithu a chyfieithu ar y pryd. Mae deddfwriaeth ddiweddar wedi symleiddio tai Cymru, ond mae'n dal i fod yn amgylchedd cymhleth. Fel arfer nid yw ceiswyr lloches sy'n mynd drwy'r system yn siarad Saesneg rhugl, ac ni fyddant yn gyfarwydd o gwbl â system dai Cymru.

Mae'r safbwyntiau a fynegwyd gan gyfranogwyr y sesiwn yn cyfateb i'n data mewnol ein hunain. Rhwng mis Hydref 2022 a mis Mawrth 2023, canfuom fod dros 80% o ddefnyddwyr gwasanaethau a oedd yn defnyddio un o'n swyddfeydd wedi codi materion yn ymwneud â Thîm Opsiynau Tai yr awdurdod lleol. Roedd y Tîm yn aml yn cael ei ystyried yn anghefnogol, a theimlwyd nad yw'n cyfathrebu'n dda. Canfu'r un data fod bron i 10% o achosion yn ymwneud â digartrefedd ymhlith defnyddwyr gwasanaethau wedi cael eu cau heb unrhyw hysbysiad e-bost na galwad gan y Tîm Opsiynau Tai. Disgrifiodd cyfranogwyr achosion hefyd lle'r oeddent yn teimlo nad oedd Timau Opsiynau Tai yn gwrando arnynt, a nododd rhai eu bod yn ofni y byddai dial yn digwydd ar ôl iddynt gwyno neu beidio â chydymffurfio.

"Mae 'na gred y bydd y cyngor yn talu'r pwyth yn ôl os dw i'n cwyno wrthyn nhw ac y byddan nhw'n fy rhoi yn rhywle dw i ddim eisiau bod. Maen nhw'n gwybod sut i drin y system. Dw i'n teimlo y bydda i'n cael fy anwybyddu ac yn gorfod aros mewn gwesty am amser maith. Pan ydyn ni'n gofyn am well cyfathrebu, yr un atebion fyddwn ni'n eu cael dro ar ôl tro."

"Roedd gen i brawf o ymosodiad a oedd wedi digwydd yn y gorffennol ac roedd siawns gref y byddai'r troseddwr yn [yr un lloches tai brys]. Doedd fy niogelwch ddim yn cael ei ystyried

o gwbl [gan y tîm dyraniadau tai]. Dywedwyd y dylwn i 'jyst ffonio'r heddlu'. Doedd cyfathrebu ddim yn dda o gwbl, ac mae ganddyn nhw ymagwedd gyffredinol iawn tuag aton ni. Dydyn nhw ddim yn ystyried amgylchiadau unigol."

"Roedd tîm digartrefedd yr awdurdod lleol yn gwybod fy mod i mewn perygl o fod yn ddigartref am chwe mis. Mae fy iechyd corfforol yn wael iawn a dw i'n disgwyl cael llawdriniaethau. Mae gen i dystiolaeth feddygol sy'n dweud y byddwn i mewn perygl pe bawn i ar y stryd am un diwrnod hyd yn oed. Chymerodd y Cyngor ddim sylw o fath yn y byd. Mae hylendid yr hostel digartref yn wael iawn hefyd."

**Cynnig – Helpu'r bobl fwyaf anghenus**

| |
|---|
| Rydym yn cynnig diddymu angen blaenoriaethol fel nad yw'r prawf hwn bellach yn angenrheidiol er mwyn i ymgeiswyr cymwys digartref gael budd o'r dyletswyddau o dan adrannau 68, 73 a 75 Deddf Tai (Cymru) 2014 (neu'r dyletswyddau cyfatebol mewn deddfwriaeth ddiwygiedig). |

Yn fras, roedd tri chwarter y rhai a oedd yn bresennol yn cytuno gyda'r cynigion i ddiddymu angen blaenoriaethol, gyda'r chwarter arall yn gweld budd o'i gadw yn ei le. Ar gyfer yr olaf, roedd angen cadw cydbwysedd ac yn eu tyb nhw, mae'n amlwg bod rhai grwpiau mewn mwy o berygl. Fodd bynnag, roeddent yn fodlon ystyried cytuno â'r cynigion hyn pe bai'r cynigion ym Mhennod 3 yn cael eu mabwysiadu, sef y rhai sy'n ymwneud ag ymyriadau wedi'u targedu ar gyfer grwpiau penodol.

I'r rhai a gytunodd gyda'r cynigion i ddiddymu angen blaenoriaethol, roeddent yn teimlo bod y profion presennol yn annheg.

"Mae angen blaenoriaethol yn annog pobl i gael plant i gynyddu eu siawns o gael eu cartrefu. Nid yw rhywun sydd â'r gallu i weithio a chyfrannu yn cael cyfle. Mae hyn yn cynyddu'r risg o hunanladdiad ymhlith dynion ifanc gan eu bod ar waelod y rhestr."

**Cynnig – Cysylltiad lleol**

| |
|---|
| Rydym yn cynnig ychwanegu grwpiau eraill o bobl at y rhestr o eithriadau er mwyn darparu ar gyfer cysylltiadau nad ydynt yn rhai teuluol â chymunedau ac ystyried yn well y rhesymau pam na all rhywun ddychwelyd i'w awdurdod lleol gwreiddiol. |

Cafwyd cytundeb unfrydol dros ddiddymu cysylltiad lleol, ac roedd mynychwyr yn siomedig nad oedd ffoaduriaid yn un o'r grwpiau a ystyriwyd ar gyfer eithriad yn y *Papur Gwyn*.

Yn seiliedig ar argymhellion y Panel Adolygu Arbenigol, cynigiodd y *Papur Gwyn* fod pum grŵp yn cael eu heithrio rhag rheolau cysylltiad lleol:[iii]

- Pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal ac nad ydynt yn byw mewn llety a ddarparwyd drwy ddyletswyddau gwasanaethau cymdeithasol.
- Cyn-filwyr a phobl sydd wedi cyd-fyw â chyn-filwyr tra oeddent yn gwasanaethu.

- Pobl sy'n wynebu risg o gam-drin domestig neu fath arall o gam-drin neu gam-fanteisio os cânt eu hatgyfeirio at awdurdod tai lleol arall, p'un a gawsant eu cam-drin yn flaenorol ai peidio.
- Pobl sydd wedi dioddef cam-drin domestig, neu fath arall o gam-drin neu gam-fanteisio, ac a fydd yn profi trawma o ganlyniad i gam-drin domestig hwnnw neu'r math arall o gam-drin neu gam-fanteisio, os cânt eu hatgyfeirio at awdurdod tai lleol arall.
- Pobl sy'n gadael y carchar y mae angen iddynt symud i ardal newydd fel rhan o'u proses adsefydlu, neu er mwyn eu helpu i fodloni'r cyfyngiadau a osodwyd ar ble y gallant fyw o ganlyniad i'w trosedd.

Yn ogystal, nododd y *Papur Gwyn* hefyd y meini prawf "amgylchiadau neilltuol" ar gyfer grwpiau penodol yr ystyrir eu bod yn wynebu risg fwy o niwed yn sgil y prawf cysylltiad lleol, gan annog awdurdodau tai lleol i fabwysiadu dull mwy hyblyg. Y pum grŵp oedd:[iv]

- Pobl ifanc 25 oed ac iau
- Aelodau o'r gymuned LHDTC+
- Ymgeiswyr anabl y mae angen iddynt gael gafael ar gymorth penodol
- Cymunedau Sipsiwn, Roma, a Theithwyr
- Pobl sy'n ceisio rhoi'r gorau i ddefnyddio sylweddau

Er syndod, o'r holl grwpiau a argymhellwyd gan y Panel Adolygu Arbenigol, yr unig un sydd heb ei gynnwys yn y *Papur Gwyn* oedd "ffoaduriaid a chyn-geiswyr lloches eraill sydd wedi cael caniatâd i aros yn y wlad".[v]

Dadleuodd y cyfranogwyr nad oedd ganddynt lais o gwbl dros ble roeddent yn byw, gan fod y Swyddfa Gartref wedi penderfynu ar eu rhan heb ystyried eu barn o gwbl ynghylch yr hyn oedd orau ganddynt. O ganlyniad, mae llawer yn byw mewn ardaloedd anaddas lle na allant gael gafael ar gymorth cymunedol. Soniodd eraill am reolau cysylltiad lleol sy'n effeithio ar eu rhagolygon swyddi.

"Dylai ffoaduriaid gael eu cynnwys yn yr eithriadau. Mae llawer yn profi gwrthdaro yn llety'r Swyddfa Gartref ac eisiau dianc rhag hyn trwy symud i ffwrdd."

"Dylai ffoaduriaid gael eu heithrio, yn enwedig os ydyn nhw wedi dod o hyd i waith."

## Pennod 2 – Rôl Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru o ran Atal Digartrefedd

| |
|---|
| • Dyletswydd newydd i adnabod pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd a'u hatgyfeirio at rannau penodedig o'r gwasanaeth cyhoeddus, er mwyn i awdurdod lleol gael ei hysbysu cyn gynted â phosibl bod rhywun dan fygythiad o ddigartrefedd neu'n ddigartref yn barod.<br>• Ynghyd â'r ddyletswydd i atgyfeirio, rydym yn cynnig rhoi dyletswydd ar y rhannau penodedig y gwasanaeth cyhoeddus i weithredu o fewn eu swyddogaethau eu hunain i gynnal contractau meddiannaeth safonol neu ddiogel a lliniaru'r risg o ddigartrefedd.<br>• Dyletswydd ehangach i gydweithredu (a osodir gan adran 95 Deddf Tai (Cymru) 2014 ar hyn o bryd), er mwyn sicrhau y bydd mwy o wasanaethau cyhoeddus yn cael eu defnyddio |

ac y byddant yn gyfrifol am wneud digartrefedd yn beth prin a byrhoedlog nad yw'n ailddigwydd.
• Atgyfnerthu arweinyddiaeth strategol ym maes digartrefedd ar lefel ranbarthol.
• Dull statudol o gydgysylltu achosion statudol ar gyfer pobl sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd ac sydd â nifer o anghenion cymorth cymhleth.

Cytunodd y cyfranogwyr â'r cynigion ym Mhennod 2. Roedd ganddynt ddiddordeb arbennig yn y cydweithio rhwng canolfannau gwaith a thimau tai awdurdodau lleol, gan eu bod yn teimlo bod bwlch mawr mewn gwaith cydweithredol rhwng cyflogaeth a chymorth tai.

"Pan ges i fynediad i'r lloches nos, roedd yn rhaid i mi gyflwyno fy hun bob nos a doedd gen i unman i fod yn ystod y dydd. Llwyddais i gael swydd yn gymharol gyflym, ond wedyn cefais wybod bod angen i mi dalu £1,200 i aros yn y lloches i'r digartref. Ces fy ngorfodi i ddewis rhwng ennill incwm a chael lloches sylfaenol."

"Dim ond cyfeirio pobl at y rhyngrwyd mae'r Ganolfan Waith, heb wneud dim byd i helpu pobl i ddod o hyd i swydd mewn gwirionedd. Mae angen cod post a geirda arnoch chi i gael gwaith."

## Pennod 3 – Cynigion wedi'u targedu i atal digartrefedd i'r rhai yr effeithir arnynt yn anghymesur

Nododd y *Papur Gwyn* saith grŵp yr effeithir arnynt yn anghymesur gan ddigartrefedd.[vi] Cafwyd cynigion pwrpasol sydd â'r nod o sicrhau bod digartrefedd yn beth prin, byrhoedlog nad yw'n ailddigwydd, hyd yn oed i'r rhai sydd fwyaf agored i ddigartrefedd.

- Plant, pobl ifanc a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal
- Pobl ag anghenion iechyd cymhleth, gan gynnwys salwch meddwl neu broblemau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a'r rhai sy'n gadael yr ysbyty
- Goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol
- Pobl anabl
- Cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog
- Pobl sy'n gadael y carchar
- Pobl nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus (NRPF)

Gyda dim ond ychydig eithriadau, ni welodd cyfranogwyr unrhyw broblemau gyda'r grwpiau a nodwyd sydd angen ymyriadau wedi'u targedu er mwyn atal digartrefedd. Holodd un neu ddau o fynychwyr beth oedd y gwahaniaeth rhwng y cynnig hwn a'r angen blaenoriaethol.

O ran grwpiau eraill sydd angen ymyriadau wedi'u targedu er mwyn atal digartrefedd, cytunwyd yn unfrydol y dylai ffoaduriaid sydd newydd gael statws fodloni'r meini prawf hefyd. Unwaith y rhoddir statws ffoadur i rywun, mewn theori 28 diwrnod sydd ganddynt i adael y llety a ddarperir gan y Swyddfa Gartref.

Yn ystod y 28 diwrnod hwnnw, y cyfnod symud ymlaen, mae'n rhaid i ffoaduriaid sydd newydd gael statws agor cyfrif banc, ceisio sefydlu taliadau budd-dal, dod o hyd i swydd, llety, a mwy. Mae oedi yn digwydd yn aml am nad yw eu Trwyddedau Preswylio Biometrig (BRP) yn cyrraedd ar amser. Fel arfer, ni allant agor cyfrif banc na gwneud cais am fudd-daliadau heb gerdyn BRP dilys.

Yn yr argyfwng tai presennol, nid yw 28 diwrnod yn ddigon o amser i sicrhau unrhyw fath o lety tymor hir diogel, heb sôn am un sy'n addas. Mae *Astudiaeth Dichonoldeb Tai a Chymorth i Ffoaduriaid* Tai Pawb yn tynnu sylw at y "rhwystrau sylweddol a brofir gan ffoaduriaid unwaith y cânt ganiatâd i aros wrth ddod o hyd i lety a chymorth priodol sy'n eu galluogi i symud ymlaen â'u bywydau, integreiddio i gymdeithas ac osgoi amddifadrwydd".[vii]

Rydym yn cydnabod bod digartrefedd ar gynnydd ym mhob rhan o'r gymdeithas a bod cyllidebau Llywodraeth Cymru yn cael eu hymestyn. Ond mae ffoaduriaid sydd newydd gael statws mewn perygl neilltuol am bedwar rheswm yn arbennig:

- ar ôl byw ar £45 yr wythnos, sef arian cymorth y Swyddfa Gartref, nid oes gan y rhan fwyaf gynilion ar gyfer talu blaendal neu rent ymlaen llaw nac i fynd i 'ryfel bidio' am rent preifat
- mae'r rhan fwyaf o landlordiaid yn mynnu gwarantwr yn y DU ond nid oes gan y rhan fwyaf o ffoaduriaid sydd newydd gael statws warantwr
- nid yw'r cyfnod symud ymlaen o 28 diwrnod yn rhoi digon o amser i gael mynediad at wasanaethau atal digartrefedd sydd eisoes wedi'u gorlethu, na chynlluniau bond
- bydd llawer o geiswyr lloches yn dal i ddatblygu eu sgiliau iaith Saesneg pan fyddant yn derbyn statws ffoadur, sy'n ei gwneud hi'n anodd ac yn ddryslyd iddynt gael gafael ar gymorth a'i ddeall

Dywedodd y rhai a gymerodd ran yn *Profiadau pobl â nodweddion gwarchodedig o ddigartrefedd yng Nghymru* Tai Pawb mai'r hysbysiad 28 diwrnod oedd prif achos eu digartrefedd.[viii] Yn yr un modd, mae rhwystrau sylweddol eraill i gael mynediad at addysg, cyflogaeth a gofal iechyd.

"Dylai ffoaduriaid fod yn un o'r categorïau. Mae bron pob unigolyn sydd newydd gael statws yn cael ei wneud yn ddigartref. Does ganddyn nhw ddim cymorth, dim incwm, ac ati. Dim ond trwy ffrind i ffrind y llwyddais i ddod o hyd i gymorth, gan na allwn dalu £1,200 i aros yn y lloches ar ôl i mi ddod o hyd i swydd. Mae'n ymddangos mai'r unig lwybr y gall pobl ei ddilyn yw trwy'r hosteli ac, yn y pen draw, tŷ cyngor. Mae hyn yn achosi i bobl eraill gael llai o fynediad at gymorth. Gallai [tai tymor hir i ffoaduriaid] gael ei wneud yn well drwy roi lle i bobl aros wrth ddod o hyd i waith ac arbed digon o arian i dalu blaendal am eiddo rhent preifat. Gallen nhw hyd yn oed dalu tuag ato. Ddylen nhw ddim cael eu cosbi am weithio."

"Mae'n cymryd amser hir i gael cyfeiriad. Dw i wedi bod mewn gwesty am naw mis. Does dim cyfleusterau ymolchi, dim cyfleusterau coginio na bwytai ar gael ar gyfer anghenion deietegol ein plant. Dw i wedi blino'n lân, dw i mor flinedig. Mae'n costio mwy i'r llywodraeth yn y tymor hir. Yn ariannol, dyw hyn ddim yn gwneud synnwyr. Gallai'r arian sy'n cael ei wario fynd tuag at lety hunangynhwysol. Mae'n ymddangos ein bod ni i gyd yn

cael ein gwthio i lawr yr un llwybr. Rydyn ni eisiau gweithio a thalu treth – nid cymryd budd-daliadau. Dylai cynllun prentisiaethau fodoli ar gyfer y rhai sydd eisoes â sgiliau."

Roedd y rhai a oedd yn cymryd rhan yn teimlo hefyd y gallai'r fframiau amser byr a'r diffyg cymorth orfodi ffoaduriaid (newydd gael statws) i droseddu am mai dyna'r unig ffordd y gallen nhw oroesi. Awgrymwyd hyd yn oed fod cael carchar yn arwain at ganlyniadau gwell nag aros am gymorth yn y broses o symud ymlaen.

"Mae peidio â chynnwys ffoaduriaid ar y rhestr yn gwneud pobl yn agored i gamfanteisio ac yn cael effaith ar eu hiechyd meddwl. Dyw cymorth i'r rhai sydd Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus ddim yn mynd yn ddigon pell. Mae anfon rhywun i'r carchar yn costio mwy na'u galluogi i aros yn llety'r Swyddfa Gartref. Mae pobl yn cael mwy o gymorth yn y carchar."


Roedd ymdeimlad o rwystredigaeth gyffredinol gyda'r diffyg cymorth yn ystod y cyfnod symud ymlaen. Oherwydd hynny, aeth llawer ohonynt yn ddigartref, ac roeddent yn dadlau bod hynny wedyn yn effeithio'n negyddol arnynt mewn meysydd eraill, fel cyflogaeth.

"Does gan ffoaduriaid newydd ddim cyfeiriad na geirda [gwaith na thai]. Mae stigma ynghylch bod yn ddigartref ac nid yw llawer o gyflogwyr yn derbyn BRP (Trwydded Breswylio Biometrig) fel dogfen adnabod, maen nhw eisiau pasbort. Dyw'r DVLA ddim yn derbyn cyfeiriad gwesty."

I grynhoi, fel y dywedodd un cyfranogwr, oherwydd y diffyg cymorth ychwanegol, "sut allwn ni 'symud ymlaen'?".

Mae *Cynllun Cenedl Noddfa* Llywodraeth Cymru yn ceisio "atal y problemau mwyaf niweidiol a wynebir gan ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru."[ix] Byddai atal digartrefedd drwy gymorth wedi'i dargedu yn lleihau llawer o'r profiadau niweidiol hyn. Byddai hefyd yn arwain at integreiddio cyflymach i gymunedau lleol ac annibyniaeth hirdymor oddi wrth wasanaethau cymorth.

Fel rhan o'r ymdrech i gwtogi'r ôl-groniad o bobl sy'n ceisio lloches, mae nifer y penderfyniadau lloches cadarnhaol a gafwyd gan y Swyddfa Gartref wedi cynyddu. Nid yw hyn wedi bod yn fater unigryw i Gymru. Mae awdurdodau lleol ar draws y DU wedi cwyno na roddodd y Swyddfa Gartref fesurau digonol ar waith er mwyn iddynt allu helpu gyda'r symudiad ar bontio ffoaduriaid sydd newydd gael statws. Mae'r niferoedd yn llethol.




Heb fesurau pellach, amcangyfrifodd y Groes Goch Brydeinig fod dros 50,000 o ffoaduriaid newydd gael statws yn debygol o fod yn ddigartref erbyn diwedd 2023.[x] Canfu data BRC gynnydd o 140% mewn amddifadedd i bobl â statws ffoadur rhwng 1 Awst a 15 Medi 2023 hefyd.[xi]

Adroddodd y Big Issue fod 33 o ffoaduriaid bob mis, ar gyfartaledd, wedi cael eu troi allan i ddigartrefedd yng Nghaerdydd rhwng mis Awst a mis Tachwedd 2023, cynnydd o gyfartaledd o 10 mewn misoedd blaenorol.[xii]

Bydd ehangu gwasgariad hefyd yn cael effaith ar ffoaduriaid sydd newydd gael statws ledled Cymru. Yn absenoldeb gwasanaethau cymorth arbenigol neu ddigonol, mae ffoaduriaid mewn perygl o lithro rhwng dwy stôl, yn enwedig yn ystod y cyfnod symud 28 diwrnod. Heb wybod beth i'w wneud ac oherwydd diffyg adnoddau ariannol, mae llawer o ffoaduriaid sydd newydd gael statws mewn perygl o fynd yn amddifad ac yn ddigartref.

## Pennod 4 – Mynediad at lety

| |
|---|
| Rydym yn cynnig y dylai'r ddeddfwriaeth bresennol gael ei hatgyfnerthu er mwyn gwahardd ystyried bod llety â pheryglon Categori 1 yn addas. |
| Rydym yn deall na chaiff lleoedd cysgu a rennir eu defnyddio'n aml ond rydym yn cynnig y dylid ei gwneud yn glir mewn deddfwriaeth na chaiff lleoedd cysgu a rennir byth eu caniatáu, hyd yn oed mewn llety dros dro neu lety argyfwng. |
| Rydym yn cynnig cyflwyno gofyniad ei bod yn rhaid ystyried yr amgylchiadau personol hyn wrth asesu addasrwydd llety, hyd yn oed os na fydd modd diwallu'r holl anghenion hynny drwy leoli'r unigolyn mewn llety ar adeg yr asesiad. |
| Rydym yn cynnig atgyfnerthu'r ddeddfwriaeth er mwyn nodi'n glir na ddylid byth ganiatáu lleoli unigolion mewn llety gorlawn wrth benderfynu ar addasrwydd llety pan fydd y brif ddyletswydd tai yn ddyledus. |
| Rydym yn cynnig, ar gyfer pobl o dan 25 oed, na ddylid caniatáu'r defnydd o lety dros dro anaddas, gan gynnwys llety gwely a brecwast a llety a rennir, am unrhyw gyfnod. |

| |
|---|
| Rydym yn cynnig na ellir ystyried bod llety'n addas oni bai ei fod wedi'i leoli o fewn pellter teithio rhesymol i gyfleusterau addysgol, gweithle, cyfrifoldebau gofalu a chyfleusterau meddygol presennol neu newydd, oni fydd yr ymgeisydd yn dymuno symud y tu hwnt i bellter teithio rhesymol oddi wrth y cyfleusterau hynny. |
| Rydym yn cynnig y dylai fod yn ofynnol i'r awdurdod tai lleol ystyried, mewn perthynas â'r ymgeisydd ac unrhyw aelod o aelwyd yr ymgeisydd, unrhyw anghenion iechyd penodol, unrhyw amhariad, y pellter o'r llety i ardal yr awdurdod os yw wedi'i leoli y tu allan i ardal yr awdurdod, arwyddocâd unrhyw darfu a achosir gan y pellter rhwng y llety â gweithle, cyfrifoldebau gofalu neu leoliad addysg yr unigolyn ac agosrwydd cyflawnwyr a dioddefwyr honedig cam-drin domestig a mathau eraill o gam-drin. |

Roedd gan y rhai a gymerodd ran lawer i'w ddweud am y cynigion ym Mhennod 4. Roedd pawb yn yr ystafell wedi profi llety dros dro a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol. Roedd rhai wedi cael eu gosod ar unwaith mewn gwestai neu hosteli, tra bod eraill ond wedi cael eu cyfeirio at lety brys.

Ar y cyfan, roedd pryderon difrifol iawn ynghylch diogelwch mewn llety dros dro, gyda llawer yn teimlo'n ofnus oherwydd y trais a'r defnydd o sylweddau a welwyd yn y lleoliadau hyn. Teimlai sawl un fod y defnydd o sylweddau yn arbennig o galed ar bobl ifanc a oedd yn cael eu hecsbloetio a'u rhoi dan bwysau i gymryd cyffuriau.

Roedd eraill yn cwyno am ddiffyg preifatrwydd a chyflwr gwael, aflan y llety dros dro a gynigiwyd. Roedd un o'r cyfranogwyr â nam symudedd ac yn dioddef o rai cyflyrau iechyd difrifol, a dywedodd nad oedd hynny'n ystyriaeth o gwbl pan gafodd ei roi mewn lloches nos. Dywedodd hefyd fod cael ei orfodi i fyw yno, er yn well na byw ar y stryd, wedi gwaethygu'r cyflwr iechyd.

O ystyried profiadau penodol y demograffig hwn, roedd lleoliadau llety dros dro yn aml yn sbarduno profiadau trawmatig.

"Does gan y rhan fwyaf o hosteli ddim ystafelloedd ymolchi preifat ac mae gormod o bobl ac ychydig iawn o ddarpariaeth. Mae'r cawodydd yn rhydlyd ac mae'r ystafell ymolchi yn drewi. Yr unig beth a ddywedir wrthym yw 'allwch chi ddim cwyno, rydych chi'n ddigartref'. Dylen nhw gyfyngu ar ysmygu gan ei fod yn gwneud i'r larymau ganu."

"Yn y pen draw rydych chi'n anwybyddu'r larymau gan na allwch chi ymddiried ei fod yn dân go iawn."

"Does dim dŵr poeth [yn y lloches nos]. Mae'n rhaid i mi gael lle glân i aros ynddo gan fod gen i alergeddau. Mae dau doiled ar gyfer 30 o bobl, ac mae'n rhaid i chi aros awr i'w ddefnyddio. Dw i eisiau ychydig o breifatrwydd, dyna i gyd. Mae yna lawer o ddefnyddio cyffuriau."

"Mae'r rhaniadau ciwbicl yn gwneud iddo deimlo fel gwersyll ffoaduriaid. Dydw i ddim yn teimlo'n ddiogel yno."

"Mae gan fy ffrind gyflwr meddygol a phrawf ei bod yn dioddef ohono, ond mae wedi bod yn ddigartref ers tri mis er gwaethaf dangos y prawf i'r cyngor. I ble mae ei lythyrau meddyg

yn cael eu hanfon? Does ganddo ddim cyfeiriad i anfon ei apwyntiad MRI iddo. Dyw e ddim yn ddiogel yn yr hostel gan fod llawer o ddefnydd o alcohol ac mae pobl yn ymladd. Dylai fod llety ar wahân i'r rhai sy'n cymryd sylweddau. Mae rhestrau aros y GIG yn hir, felly dylai pawb weithio gyda'i gilydd i leihau'r rhestr aros. Mae angen cefnogaeth ar gyfer cymorth iechyd meddwl."

"Dyw pethau sydd wedi torri ddim yn cael eu trwsio. Allwn ni ddim bod yn iach os na allwn ni goginio i ni'n hunain, a chael ein gorfodi i fwyta bwyd afiach. Roeddwn i'n byw yn well fel ceisiwr lloches, gan fy mod i'n gallu coginio i mi fy hun. Gallwn drefnu fy arian fy hun; beth sydd gennym i'n galluogi i wneud hynny nawr?"

"Dylen nhw gael gwared â'r 'dyn canol'. Maen nhw'n gwario gormod ar westai a hosteli. Dyw hynny ddim yn datrys y broblem. Dylen nhw brynu eiddo gyda'r arian yna."

## Casgliad

Er bod y cyfranogwyr yn cytuno â'r rhan fwyaf o'r cynigion yn y *Papur Gwyn*, roedd teimlad y gellid bod wedi ymgysylltu mwy â nhw ymlaen llaw wrth wneud y cynigion.

Roedd nifer o'r cynigion yn teimlo'n ddieithr i'r cyfranogwyr, ac nid oedd eraill yn cymryd ystyriaeth benodol o brofiadau ceiswyr lloches. Roedd rhwystredigaeth ymhlith cyfranogwyr eu bod wedi cael eu hanwybyddu yn y cynigion hyn ac nad oedd ymdrech i ddod o hyd i atebion i'w problemau. Nid oedd mynychwyr yn deall pam nad oedd ceiswyr lloches yn cael eu crybwyll ac yn aml ddim yn cael eu cynnwys mewn cynnig, fel y gwelir gyda chysylltiad lleol neu â'r grwpiau a grybwyllir ym Mhennod 3. Er bod rhywfaint o optimistiaeth, nid oes llawer o hyder y bydd y *Papur Gwyn* yn rhoi terfyn ar ddigartrefedd i geiswyr lloches oni bai bod cynigion penodol ar eu cyfer.

Gobeithiwn, gyda'r corff cyfunol o dystiolaeth a grëwyd mewn ymateb i'r *Papur Gwyn*, y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried rhai o'r cynigion a fydd yn galluogi ceiswyr lloches, a ffoaduriaid sydd newydd gael statws yn benodol, i osgoi dod yn ddigartref.

---

[i] Llywodraeth Cymru, Datganiad i'r Wasg, "Gweithio i atal digartrefedd: Y Gweinidog yn derbyn mewn egwyddor argymhellion newydd i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru" (17 Mawrth 2020).

[ii] Yn y cyd-destun hwn, term ymbarél i gyfeirio at geiswyr lloches, ffoaduriaid (gan gynnwys y rhai y rhoddwyd amddiffyniad dyngarol iddynt), a phob statws arall ar gyfer pobl sydd wedi cael eu gorfodi i adael eu cartrefi.

[iii] Llywodraeth Cymru, "Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru" (10 Hydref 2023), t. 50.

[iv] Ibid.

[v] Panel Adolygu Arbenigol, "Rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru: adolygiad deddfwriaethol" (2023), t. 25.

[vi] Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru, t. 74.

[vii] Joy Kent, Tai Pawb, "Astudiaeth Dichonoldeb Tai a Chymorth i Ffoaduriaid" (Mai 2019), t. 6.

[viii] Tai Pawb, "Profiadau pobl sydd â nodweddion gwarchodedig yng Nghymru o ddigartrefedd" (Mawrth 2023), tt. 23-26.

[ix] Llywodraeth Cymru, "Cenedl Noddfa – Cynllun ffoaduriaid a cheiswyr lloches" (Ionawr 2019), t. 6.

[x] Y Groes Goch Brydeinig, Datganiad i'r Wasg, "More than 50,000 refugees could become homeless by the end of the year, British Red Cross warns" (5 Hydref 2023).

[xi] Ibid.
[xii] Greg Barradale, The Big Issue, "*Number of homeless refugees in Cardiff doubles amid surge in Home Office asylum evictions*" (7 Rhagfyr 2023)